Department for Education

# Ymgynghoriad – Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2014

**13 Medi 2013**

# Cynnwys


Cynigion am Ymgynghoriad 4

Cyflwyniad 4

Diwygio’r Gwasanaethau Cyhoeddus 4

Ymgynghoriad ar Gynigion Polisi i Roi’r CPA Diwygiedig ar Waith 4

Proses ar gyfer Ymgynghori ar Reoliadau Drafft er mwyn Gweithredu’r CPA Diwygiedig5

Beth ddywed y rheoliadau 7

Rhan 1 Rhagarweiniol 7

Rhan 2 Llywodraethu 7

Rhan 3 Aelodaeth o’r Cynllun 7

Rhan 4 Cyfrifon Pensiwn 8

Rhan 5 Buddion Ymddeol i Athrawon 9

Rhan 6 Buddion y Goroeswr 11

Rhan 7 Buddion ar gyfer Aelodau Credyd Pensiwn 12

Rhan 8 Talu Buddion 12

Rhan 9 Cyfraniadau 12

Rhan 10 Prisiad yr actwari a chap cost y cyflogwr 13

Rhan 11 Trosglwyddiadau 13

Rhan 12 Amrywiol ac Atodol 13

Atodlen 1 Cyflogaeth cymwys 14

Atodlen 2 Pensiwn a drosglwyddwyd 14

Atodlen 3 Hyblygrwydd y cynllun 14

Atodlen 4 Cyfraniadau’r gweithwyr a’r cyflogwyr 15

Atodlen 5 Darpariaethau trosiannol 15

Cwestiwn yr Ymgynghoriad 16

# Cynigion am Ymgynghoriad

## Cyflwyniad

### Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Yn dilyn argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Y Comisiwn), a gadeiriwyd gan Arglwydd Hutton o Furness, mae pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diwygio er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy yn yr hirdymor, ac yn decach i aelodau ac i'r trethdalwr. Mae pobl yn byw llawer hirach, 10 mlynedd yn hirach ar gyfartaledd nag yn y 1970au. Golyga hyn bod y gost o ddarparu pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys pensiynau athrawon, wedi cynyddu traean dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Er y diwygiadau diweddar, y trethdalwyr sy'n ysgwyddo'r rhan helaeth o'r costau hyn.
2. Ar 9 Mawrth 2012, cyhoeddodd yr Adran Addysg (yr Adran), Gytundeb Terfynol Arfaethedig (CTA) a sefydlodd y model ar gyfer Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) diwygiedig. Mae prif ddarpariaethau'r cynllun diwygiedig yn cynnwys: pensiwn yn seiliedig ar enillion gyrfa gyfartalog; cyfradd cronni o 1/57fed; ac Oed Pensiwn Arferol (OPA) yn cyfateb i Oed Pensiwn y Wladwriaeth (OPW), ond gydag opsiynau i alluogi aelodau i ymddeol yn gynharach neu yn hwyrach na'u OPA. Ceir rhagor o wybodaeth yn:

   http://www.education.gov.uk/schools/careers/payandpensions/b00204965/proposed-teacher-pension-scheme-reforms
3. Bydd y diwygiadau i'r CPA yn sicrhau y bydd y cynllun yn parhau i fod yn un o'r goreuon sydd ar gael – gyda lefelau o fuddion wedi eu gwarantu a phrawfesur o safbwynt chwyddiant. Bydd yn rhoi pensiwn cynaliadwy ac o safon uchel i aelodau sy'n adlewyrchu'r gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth i addysg, gan roi cymorth i gyflogwyr ddenu a dal eu gafael ar athrawon ardderchog.

### Ymgynghoriad ar Gynigion Polisi i Roi'r CPA Diwygiedig ar Waith

4. Ar 7 Mai 2013 cyhoeddodd yr Adran ddogfen ymgynghorol, Ymgynghoriad – Cynigion ar gyfer rhoi Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig ar waith yn 2015. Sefydlodd y ddogfen ymgynghorol gynigion yr Adran ynglŷn â'r manylder am sut y dylid rhoi'r CTA ar gyfer y CPA diwygiedig ar waith, h.y. sut y cynigir y bydd y trefniadau newydd yn gweithio'n ymarferol, a cheisiwyd barn am y cynigion.
5. Sefydlodd y cynigion: beth fydd yr effaith ar y rhai fydd yn ymuno â'r cynllun ar, neu ar ôl, 1 Ebrill 2015; a'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer aelodau presennol y cynllun, gan gynnwys aelodau o'r cynllun sydd wedi eu diogelu. Galluogodd yr ymgynghoriad i aelodau'r cynllun, cyflogwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb i

nodi, ac i leisio barn ar, unrhyw fater yn gysylltiedig â rhoi'r cynllun diwygiedig ar waith, gan gynnwys unrhyw beth ar gydraddoldeb a beichiau ychwanegol.

6. Cynrychiolodd yr ymgynghoriad gam allweddol yn y broses o ddiwygio pensiwn y sector gyhoeddus a ddechreuodd gydag ymroddiad y Llywodraeth i adolygu fforddiadwyedd a chynaliadwyedd hirdymor cynlluniau pensiwn y sector gyhoeddus. Nid oedd yr ymgynghoriad, serch hynny, yn ymwneud â manylion y Cytundeb Terfynol Arfaethedig, a oedd eisoes wedi eu pennu yn dilyn trafodaethau ac ymgynghoriadau manwl ar wahân.

7. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Mai 2013 a 28 Mehefin 2013. Roedd y ddogfen ar gael ar wefan yr Adran a dychwelwyd ymatebion i'r Adran Addysg drwy e-bost neu bost arferol.

8. Ar gyhoeddi, gyrrwyd manylion yr ymgynghoriad i'r holl grwpiau rhanddeiliaid allweddol a chyrff cynrychiadol, gan gynnwys undebau'r athrawon a sefydliadau cyflogwyr. Sicrhaodd yr Adran hefyd i'r ddogfen ymgynghorol gael ei hysbysebu'n amlwg ar wefan gweinyddwr y cynllun (Pensiynau'r Athrawon), ac y gallai aelodau a chyflogwyr y cynllun gysylltu'n hawdd â'r wefan oddi yno. Yn ychwanegol, ymgysylltodd yr Adran yn weithgar a chyfarfod ag undebau a chyflogwyr i drafod y cynigion, cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori.

9. Rhoddodd yr Adran ystyriaeth i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac i gyd-fynd â'r ddogfen hon cyhoeddwyd ymateb sy'n gosod barn yr Adran. Gellir gweld yr ymateb yn llawn ar wefan y DfE ynghyd ag yn y ddogfen hon: [www.education.gov.uk/consultations](www.education.gov.uk/consultations)

### Proses ar gyfer Ymgynghori ar Reoliadau Drafft er mwyn Gweithredu'r CPA Diwygiedig

10. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cychwyn ar gyfnod pellach o ymgynghori ar y Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig. Cynigir bod Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2014 yn sail ar gyfer rhoi'r Rheoliadau gerbron y Senedd erbyn 1 Ebrill 2014, gyda'r cynllun diwygiedig yn dod i rym ar 1 Ebrill 2015.

11. Mae'r rheoliadau drafft hyn yn cynnwys manylion ar elfen ymarferol y cynllun diwygiedig fel y nodir yn y CTA ac fel yr ymgynghorwyd o 7 Mai i 28 Mehefin 2013. Maent hefyd yn cynnwys y newidiadau hynny i'r cynigion gweithredu a ymgynghorwyd arnynt a ddeilliodd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae rhai rhannau o drefniadau'r cynllun lle mae'r polisi cyffredinol ar gyfer cynlluniau'r sector gyhoeddus eto i'w cadarnhau (e.e. trefniadau prisio'r cynllun a threfniadau trosglwyddo). Mae yna hefyd drefniadau cysylltiol lle mae angen diweddaru'r rheoliadau perthnasol o ystyried y CPA diwygiedig (e.e. Iawndal Ymddeoliad Cyn Pryd a threfniadau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol). Mae'r rheoliadau drafft yn cynnwys elfennau wrth gefn ar gyfer y materion hyn. Bydd y rhannau perthnasol yn cael eu cwblhau a'u hychwanegu (trwy ddiwygio rheoliadau), a bydd

y rheoliadau cysylltiol sydd ynghlwm yn cael eu diweddaru, yn 2014. Bydd y rhain, wrth gwrs, yn destun ymgynghoriad pellach. Ymgynghorir ar ddiwygiadau canlyniadol i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010 a'u cwblhau o fewn yr un amserlen. Gyda'i gilydd daw'r rheoliadau newydd a'r diwygiadau/diweddariadau i'r rheoliadau presennol ynghyd i ffurfio sail y CPA diwygiedig, a byddant wedi eu cwblhau mewn digon o amser i ganiatáu gweinyddiad a chyfathrebu effeithiol o'r newidiadau sydd ar waith.

12. Gwahoddir eich sylwadau ar roi'r rheoliadau drafft hyn ar waith. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 13 Medi 2013 ac yn rhedeg tan 11 Tachwedd 2013. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau ffurflen ymateb a'i hanfon at reformedteacherspension.CONSULTATION@education.gsi.gov.uk neu drwy yrru eich ymateb drwy'r post i Teachers' Pension Reform Consultation, Department for Education, Ground Floor Area B, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington, DL3 9BG.

13. Gwneir y Rheoliadau dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

# Beth ddywed y rheoliadau

## Rhan 1 Rhagarweiniol

Mae Rhan 1 o Reoliadau Pensiynau Athrawon 2014 yn sefydlu enw’r rheoliadau a’r cynllun ac yn penderfynu hyd a lled y rheoliadau. Mae hefyd yn cyflawni’r gallu i gychwyn y rhan lywodraethol (yn benodol y trefniadau ar gyfer Bwrdd Pensiwn y CPA – gweler isod am ragor o fanylion) ar ddyddiad cynt na gweddill y cynllun ac yn gosod y diffiniadau a ddefnyddir drwy’r ddogfen.

## Rhan 2 Llywodraethu

Mae’r rhan hon yn sefydlu’r Ysgrifennydd Gwladol fel rheolwr y cynllun hwn a’r cynllun cyflog terfynol. Mae hefyd yn darparu’r sail gyfreithiol ar gyfer Bwrdd Pensiwn y Cynllun Pensiwn a Bwrdd Cynghori’r Cynllun Pensiwn Athrawon (sy’n cael eu sefydlu i roi sicrwydd a chymorth i reolwr y cynllun wrth sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weinyddu’n effeithiol).

## Rhan 3 Aelodaeth o’r Cynllun

Mae Rhan 3 o’r rheoliadau wedi ei rannu rhwng 4 pennod, a phob un yn ymdrin ag agweddau gwahanol o aelodaeth y cynllun.

Mae Pennod 1 yn rhoi diffiniadau a ddefnyddir drwy’r rhan hon.

Mae Pennod 2 yn darparu’r meini prawf ar gyfer aelodaeth gyffredinol o’r cynllun. Yn benodol mae’r bennod hon yn diffinio aelodaeth ddeuol fel aelod cynllun sydd â mwy nag un statws yn y cynllun. Byddai aelod cynllun sydd wedi cael toriad mewn gwasanaeth am fwy na phum mlynedd ac yna’n dychwelyd i’r cynllun diwygiedig, er enghraifft, yn aelod gohiriedig o safbwynt ei wasanaeth cyn y toriad ac yn aelod gweithredol o safbwynt ei wasanaeth wedi’r toriad.

Mae Pennod 3 yn diffinio gwasanaeth pensiynadwy yn y cynllun diwygiedig ac yn cynnwys manylion cofrestru awtomatig dan Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Cofrestru Awtomatig) 2010. Bydd y darpariaethau hyn yn cael eu diwygio er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau sydd ar y gweill i ofynion cofrestru awtomatig.

Mae Pennod 3, Rhan 2 yn ymdrin yn benodol â’r aelodau hynny o’r cynllun sy’n cael eu galw allan, neu eu galw eto, ar gyfer gwasanaeth parhaol gyda lluoedd arfog Ei Mawrhydi. Ni does newid i’r ddarpariaeth hon o Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010.

Mae Rhannau 3 a 4 yn rhoi darpariaeth i aelodau'r cynllun optio allan o'r cynllun, ac i mewn iddo, cyn ac ar ôl i gofrestru awtomatig ddod i rym.

Mae Pennod 4 yn canolbwyntio ar enillion pensiynadwy. Dyma'r cyflog, a thaliadau eraill, a ddefnyddir i benderfynu ar faint o bensiwn y bydd aelod cynllun yn ei gronni bob blwyddyn yn ogystal â'r cyfraniadau i'w talu. Yn dilyn ymgynghori gwnaed penderfyniad i barhau gyda'r darpariaethau ar gyfer enillion preswyl. Penderfynwyd hefyd ystyried taliadau goramser o fewn enillion pensiynadwy yn y cynllun diwygiedig, a'r rheoliadau drafft sy'n ymdrin â hynny.

## Rhan 4 Cyfrifon Pensiwn

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn sefydlu sut mae buddion yn cael eu cofnodi ar gyfer mathau gwahanol o aelodau e.e. gweithredol, gohiriedig ac aelodau ar eu pensiwn, a'r math o fynegeio i'w roi ar waith ym mhob achos. Mae hefyd yn sefydlu darpariaethau ar gyfer cofnodi a mynegeio pensiwn ychwanegol a phensiwn ychwanegol a gronnir drwy gronni cynt.

Mae Pennod 1 yn egluro y bydd mynegeio yn cael ei roi ar waith ar sail pro rata mewn amgylchiadau lle mae'r aelod cynllun yn gadael y cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd buddion aelodau gweithredol yn cael eu mynegeio, fel y nodir yn y CTA, ar 1.6% uwchben y gyfradd a nodir yng ngorchymyn y trysorlys. Bydd buddion gohiriedig a phensiynau mewn taliad yn cael eu mynegeio yn unol â'r Ddeddf Pensiynau (Cynnydd).

Mae Pennod 2 yn sefydlu'r gwahanol elfennau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r pensiwn a gronnwyd gan yr aelod. Mae hyn yn cynnwys gwerth y pensiwn a enillir bob blwyddyn, gwerth unrhyw bensiwn ychwanegol neu'r dewis i gronni yn gynt, a'r mynegeio sy'n berthnasol i'r rhain. Rhoddir diffiniadau o bob elfen drwy gydol ran 4.

Mae Pennod 3 yn ei gwneud hi'n ofynnol i reolwr y cynllun sefydlu cyfrif i gofnodi'r buddion a gronnwyd neu a brynwyd gan bob aelod o'r cynllun ac yn nodi y gallai fod gan bob aelod o'r cynllun fwy nag un cyfrif. Mae'r bennod hon yn nodi hefyd bod yn rhaid i gyfrifon aelod gael eu cau os trosglwyddir buddion a gronnwyd i gynllun arall neu, os ad-delir y cyfraniadau.

Mae Pennod 4 yn sefydlu cyfrif ar gyfer bob aelod gweithredol. Mae'n cadarnhau'r elfennau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cyfrif gweithredol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cynnwys y pensiwn safonol a enillwyd, sy'n cronni ar 1/57fed o enillion pensiynadwy trwy gronni cynt. Bydd pensiwn a drosglwyddwyd hefyd yn cael ei gadw yng nghyfrif yr aelod gweithredol. Mae'r balans agoriadol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth gweithredol hefyd wedi ei sefydlu yma.

Mae Pennod 5 yn cyfeirio at sefydlu a gweinyddu cyfrif pensiwn ychwanegol. Defnyddir y cyfrif hwn ar gyfer pob cyfraniad pensiwn ychwanegol a ddewisir eu gwneud. Y cyfanswm a roddir yn y cyfrif pan ddewisir gwneud hynny fydd y cyfanswm ychwanegol o bensiwn y mae'r aelod wedi penderfynu ei brynu (e.e. £250, £500, ac ati). Ychwanegir mynegeio bob blwyddyn wedi hynny yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiwn. Dylid nodi, serch hynny, y gwneir newid i'r cyfanswm o bensiwn ychwanegol sy'n daladwy pan fydd yr aelod yn prynu pensiwn ychwanegol mewn rhandaliadau ond nad yw'n llwyddo i gwblhau talu'r rhandaliadau hynny. Mae eithriadau ar gyfer pan fydd aelod yn ymddeol am resymau iechyd ac yn cael buddion ar sail afiechyd o'r cynllun, neu pan fydd aelod yn marw yn ystod y cyfnod rhandaliadau, ac yn y sefyllfa hon bydd unrhyw bensiwn y buddiolwr cymwys yn seiliedig ar y cyfanswm llawn.

Mae Pennod 6 yn sefydlu cyfrif aelod gohiriedig pan gaeir cyfrif aelod gweithredol, ynghyd â gweinyddiaeth barhaus y cyfrif. Yn benodol, mae'n cyfeirio at aelod o'r cynllun sy'n dychwelyd i wasanaeth pensiynadwy wedi seibiant o ddim mwy na 5 mlynedd; yma dychwelir buddion aelod o'r cynllun i'r cyfrif gweithredol a'u hailbrisio yn unol â gorchymyn blynyddol y trysorlys, plws 1.6% (mae hyn yn cynnwys unrhyw ailbrisio ar gyfer y cyfnod tra roedd yr aelod o'r cynllun ar seibiant). Mae'r Bennod hon yn ymdrin hefyd â'r cyfnod pan fydd y seibiant yn hirach na 5 mlynedd, mae'r cyfrif blaenorol (h.y. y pensiwn a enillwyd) yn parhau wedi'i ohirio ac agorir cyfrif gweithredol mewn perthynas â'r gwasanaeth pellach.

Mae Pennod 7 yn darparu ar gyfer sefydlu cyfrif aelod oed pensiynwr lle mae'r buddion yn dod yn daladwy, gan gynnwys rhai ar gyfer aelodau sy'n ymddeol yn raddol. Pan mae aelod o'r cynllun yn tynnu'r buddion allan yn llawn, fe gaeir unrhyw gyfrifon gweithredol neu ohiriedig, ynghyd ag unrhyw gyfrif pensiwn ychwanegol, ac fe agorir cyfrif pensiynwr. Gwneir newidiadau i'r cyfrif mewn perthynas â newidiadau actiwaraidd a chymudiad cyfandaliad. Pan mae aelod o'r cynllun yn tynnu rhan o'i fuddion (ymddeoliad graddol) symudir y cyfanswm perthnasol o fuddion o'i gyfrif gweithredol neu ohiriedig i gyfrif y pensiwn ac fe newidir y cyfrif gweithredol neu ohiriedig yn unol â hynny.

Mae Pennod 8 yn ymwneud â sefydlu cyfrif neu gyfrifon ar gyfer aelod credyd pensiwn. Mae'n darparu ac yn sicrhau y bydd gan aelod credyd pensiwn gyfrif ar wahân mewn perthynas â phob aelod debyd pensiwn.

## Rhan 5 Buddion Ymddeol i Athrawon

Mae'r rhan hon o'r rheoliadau'n darparu'r sail ar gyfer hawl aelod o'r cynllun i gael gwahanol fathau o bensiwn, o ba ddyddiad y bydd pensiwn o'r fath yn daladwy a'r ffordd o gyfrifo cyfradd flynyddol y pensiwn. Nodwch nad oes cyfandaliad awtomatig yn daladwy ond gall aelodau gymudo hyd at 25% o'u cronfa bensiwn i mewn i gyfandaliad, yn unol â'r cynllun presennol (rhan 8, pennod 3 yn berthnasol).

Mae Pennod 1 yn darparu'r diffiniadau i'w defnyddio drwy'r rhan hon ac yn cadarnhau bod cymhwysedd buddion pensiwn yn parhau i fod yn 2 flynedd o wasanaeth cymwys. Mae hefyd yn cyflwyno elfen bellach i gymhwysedd sef, ar gyfer aelodau trosiannol, bydd unrhyw wasanaeth yn y cynllun presennol yn cyfrif tuag at wasanaeth cymwys yn y cynllun diwygiedig.

Mae Pennod 2 yn ymwneud â buddion sy'n daladwy ar neu ar ôl oed pensiwn arferol (OPA). Bydd aelod o'r cynllun sy'n gymwys i gael buddion ymddeol ac sy'n gadael gwasanaeth pensiynadwy ar neu ar ôl cyrraedd ei OPA yn dod yn gymwys i gael ei bensiwn. Yn unol â'r darpariaethau a osodir yn yr ymgynghoriad ar ddiwygiadau pensiwn, mae'r bennod hon yn cadarnhau hefyd y bydd pensiwn a gymerwyd ar ôl OPA yn cael ei newid yn actiwaraidd.

Mae Pennod 3 yn gosod yr amodau sydd yn caniatáu i unrhyw aelod o'r cynllun gymryd ymddeoliad graddol. Gall aelod o'r cynllun barhau i gymryd hyd at 75% o'i fuddion a gronnwyd a pharhau i weithio mewn cyflogaeth gymwys. Mae'r dewis hwn ar gael ar uchafswm o dri achlysur ond dim mwy na dau achlysur cyn i'r aelod o'r cynllun gyrraedd 60 oed. Mae'r bennod hon yn cadarnhau hefyd y bydd ymddeoliad graddol yn dod i ben os ceir newid yn amgylchiadau'r aelod o'r cynllun o fewn y 12 mis cyntaf i'r fath raddau nad yw'r aelod o'r cynllun yn cwrdd bellach ag amodau'r ymddeoliad graddol.

Mae Pennod 4 yn gosod y darpariaethau ar gyfer ymddeoliad cyn amser yn unol â'r rhai a ddarperir ar eu cyfer yn y cynllun presennol. Gosodir y prif ddarpariaethau yn Rheoliadau Athrawon 1997 (Iawndal am Ddiswyddo ac Ymddeoliad Cyn Amser) ac os bydd angen newidiadau i'r rheoliadau hyn, byddwn yn ymgynghori ymhellach yn 2014.

Mae Pennod 5 yn sicrhau y gall aelod o'r cynllun, sydd wedi cyrraedd 55 oed o leiaf, ddewis derbyn buddion pensiwn cyn cyrraedd OPA. Mae dewis o'r fath yn dod i rym pan mae'r aelod o'r cynllun wedi gadael pob cyflogaeth cymwys. Bydd buddion pensiwn a gymerir cyn i'r aelod gyrraedd OPA yn cael eu newid yn actiwaraidd. Pan mae aelod yn ymddeol yn gynnar, bydd y newid yn unol â'r hyblygrwydd newydd tra bydd hyd at dair blynedd o newid actiwaraidd ar gyfer aelodau gydag OPA o dros 65 oed (lleihad yn yr achos hwn) ar y gyfradd is o 3% (5% yw'r cyfartaledd nodweddiadol ar hyn o bryd). Byddai aelod gydag OPA o 66 er enghraifft, yn cael cyfrifo'r newid blwyddyn olaf ar 3%, aelod gydag OPA o 67 yn cael cyfrifo'r ddwy flynedd olaf ar 3%, ac aelod gydag OPA o 68 neu fwy yn cael cyfrifo'r tair blynedd olaf ar 3% y flwyddyn.

Mae Pennod 6 yn gosod y darpariaethau ar gyfer pensiwn afiechyd a buddion analluogrwydd. Mae Rhan 2 yn sefydlu'r amodau i'w cwrdd gan aelodau gweithredol a gohiriedig mewn perthynas â phensiwn afiechyd a chyfradd flynyddol pensiwn o'r fath. Mae Rhan 3 yn cadarnhau'r amodau i fod yn gymwys ar gyfer taliad budd-dal analluogrwydd ynghyd â phensiwn afiechyd, a'r dull o gyfrifo gwerth unrhyw fuddion analluogrwydd. Mae'r ddwy ran yn cadarnhau'r amgylchiadau pryd y bydd pensiwn afiechyd neu bensiwn analluogrwydd llwyr yn dod i ben.

Mae Pennod 7 yn sicrhau y gall aelod o'r cynllun sydd wedi cael ei daro'n ddifrifol wael cyn dod yn gymwys am fuddion ymddeol fedru hawlio grant afiechyd difrifol gwasanaeth byr.

Mae Pennod 8 yn egluro nad yw aelod o'r cynllun sy'n cychwyn gwasanaeth ôl fuddion (h.y. yn ailgychwyn gwasanaeth pensiynadwy yn dilyn ymddeoliad a thynnu buddion a gronnwyd yn flaenorol yn y cynllun) ond yna'n gadael cyn dod yn gymwys ar gyfer buddion, yn gymwys am ad-daliad o gyfraniadau dan reolau HMRC. Mae'r bennod yn sicrhau y bydd yr aelod o'r cynllun, dan y fath amgylchiadau, yn cael blwydd-dal gwasanaeth byr.

O.N. Mae Atodlen 5 yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y cyfrifir buddion a sut y telir amdanynt ar gyfer yr aelodau hynny gyda gwasanaeth cyflog terfynol a chynllun diwygiedig.

## Rhan 6 Buddion y Goroeswr

Mae'r rhan hon yn gosod y pensiynau a'r cyfandaliadau sydd yn daladwy os bydd aelod o'r cynllun yn marw. Mae'r lefel a'r math o bensiwn neu gyfandaliad yn amrywio, yn amodol ar nifer o ffactorau, megis a yw'r aelod o'r cynllun yn parhau i gyfrannu i'r cynllun ac a oes dibynyddion. Yn unol â'r cynllun presennol, nid oes cyfnod cymhwyso ar gyfer grantiau marwolaeth, er bydd angen i aelodau o'r cynllun gwblhau dwy flynedd o wasanaeth cymhwyso cyn i'w dibynyddion fod yn gymwys am fuddion pensiwn.

Mae Pennod 1 yn cynnwys diffiniadau sy'n egluro a yw'r aelod o'r cynllun yn weithredol, yn ohiriedig neu yn aelod pensiynwr ar ddyddiad y farwolaeth. Mae'r bennod hon yn cynnwys diffiniadau hefyd o oedolyn sy'n goroesi, partner sy'n goroesi a enwyd a buddiolwr sy'n goroesi.

Mae Pennod 2 yn egluro pwy y gall aelod ei enwebu i gael grant marwolaeth neu bensiwn goroeswr os bydd yr aelod yn marw.

Mae Pennod 3 yn egluro i bwy y dylid talu'r grant marwolaeth ac yn darparu cyfrifiad o'r grant marwolaeth yn ddibynnol ar a oedd yr aelod yn weithredol, yn ohiriedig neu yn bensiynwr ar ddyddiad y farwolaeth.

Mae Pennod 4 yn darparu'r cyfrifiad o'r cyfraddau hirdymor a thymor byr ar gyfer pensiwn oedolyn sy'n goroesi.

Mae Pennod 5 yn rhoi'r ddarpariaeth ar gyfer talu pensiwn oedolyn sy'n goroesi lle mae'r aelod o'r cynllun wedi prynu pensiwn ychwanegol gydag elfen oedolyn yn goroesi. (Mae Atodlen 3 yn cynnwys manylion pensiwn ychwanegol).

Mae Pennod 6 yn sefydlu'r dull o gyfrifo'r cyfraddau hirdymor a thymor byr ar gyfer pensiwn plentyn sy'n goroesi ac yn darparu diffiniad o blentyn cymwys.

## Rhan 7 Buddion ar gyfer Aelodau Credyd Pensiwn

Mae’r rhan hon yn egluro bod unigolyn sydd â hawl i gael pensiwn o ganlyniad i orchymyn rhannu pensiwn yn aelod credyd pensiwn. Gall aelod credyd pensiwn ymgeisio am bensiwn ar unrhyw adeg wedi 55 oed. Byddai pensiwn a dalwyd cyn i’r aelod credyd pensiwn gyrraedd OPA yn y cynllun yn cael ei newid yn actiwaraidd. Mae grant marwolaeth a phensiwn goroeswr yn daladwy i fuddiolwr sy’n goroesi a enwebwyd gan yr aelod credyd pensiwn.

## Rhan 8 Talu Buddion

Mae Pennod 1 yn nodi ei bod hi’n ofynnol i aelod o’r cynllun wneud cais ysgrifenedig i reolwr y cynllun er mwyn medru derbyn buddion.

Mae Pennod 2 yn egluro sut y gellir talu buddion un ai’n fisol neu’n chwarterol ac i’r aelod o’r cynllun nodi’r amledd fel rhan o’r cais.

Mae Pennod 4 yn ymwneud â thalu cyfandaliadau mewn amgylchiadau megis pan mae aelod yn dewis cymudo rhan o’r pensiwn i gyfandaliad, cymudiad afiechyd difrifol a chymudiad pensiwn bychan. Mae’r bennod hon yn sefydlu’r amodau y mae’n rhaid eu bodloni os telir cyfandaliad, a’r dull o gyfrifo gwerth y taliadau cyfandaliad.

Mae Pennod 4 yn egluro’r awdurdod sydd gan reolwr y cynllun i ofyn am dystiolaeth gan aelod o’r cynllun sy’n derbyn buddion bod yr aelod yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn y buddion hynny. Petai’r aelod o’r cynllun yn methu â darparu tystiolaeth fel y gofynnwyd, neu fod rheolwr y cynllun yn penderfynu nad yw’r aelod yn gymwys, neu bellach ddim yn gymwys, gall rheolwr y cynllun atal a cheisio adennill y taliadau.

Mae Pennod 5 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau gweinyddol gan gynnwys: llog a delir ar daliadau budd-dal hwyr; taliadau i blentyn neu unigolyn nad yw’n medru rheoli ei arian, fforffediad buddion mewn rhai achosion; a lleihad mewn buddion yn dilyn cyhuddiad yn ymwneud â lwfansau blynyddol a gydol oes. Mae’r bennod hon yn cadarnhau hefyd na ellir aseinio buddion a gronnwyd dan y cynllun hwn i unigolyn arall.

## Rhan 9 Cyfraniadau

Telir cyfraniadau gan aelodau o’r cynllun a chyflogwyr aelodau o’r cynllun. Mae Rhan 9 yn sefydlu ar ba sail y mae’r cyfraniadau’n daladwy.

O.N. Pennir lefel y cyfraniadau sy’n daladwy yn unol â’r trefniadau ar gyfer prisio cynllun. Nid yw’r trefniadau hyn wedi eu cwblhau hyd yma a byddant yn cael eu rheoleiddio ymhellach cyn i’r cynllun diwygiedig ddod i rym, gweler nodiadau rhan 19 ac Atodlen 4 isod am ragor o wybodaeth.

Mae Penodau 1 a 2 yn ymwneud â thalu cyfraniadau mewn perthynas ag aelodau o'r cynllun a'r rhai sy'n cael eu galw ar gyfer gwasanaeth parhaol yn lluoedd arfog Ei Mawrhydi. Penderfynir ar y cyfraniadau ar gyfer aelodau'r cynllun dan atodlen 3 (gweler isod).

Mae Pennod 3 yn egluro bod aelodau'r cynllun sy'n gadael gwasanaeth pensiynadwy cyn bod yn gymwys am fuddion ymddeol â hawl i ymgeisio am ad-daliad o gyfraniadau. Nid oes gan aelod o'r cynllun sydd mewn gwasanaeth ôl fuddion hawl i gael ad-daliad o gyfraniadau. Mae'r bennod hon yn darparu'r dull o gyfrifo gwerth y cyfraniadau sydd i'w had-dalu.

Mae Pennod 4 yn cadarnhau bod angen i gyflogwr aelod o'r cynllun dalu cyfraniadau ar gyfradd canran o enillion pensiynadwy'r aelod o'r cynllun. Penderfynir ar y gyfradd dan atodlen 3 (gweler isod).

Mae'n ofynnol i gyflogwr, dan bennod 5, ddidynnu cyfraniadau priodol yr aelod o gyflog aelod y cynllun bob mis, a thalu hyn ynghyd â chyfraniad perthnasol y cyflogwr, i reolwr y cynllun. Mae'r bennod hon yn egluro hefyd y dylai'r aelod o'r cynllun dalu unrhyw gyfraniadau na ddidynnwyd gan y cyflogwr, i reolwr y cynllun. Os na thelir y cyfanswm hwn gan yr aelod o'r cynllun, gall rheolwr y cynllun ddidynnu gwerth priodol o fuddion yr aelod o'r cynllun.

## Rhan 10 Prisiad yr actwari a chap cost y cyflogwr

DALFAN

Mae'r rhan hon yn cynnwys manylion ynglŷn â sut y bydd y CPA yn cael ei brisio a sut y bydd y cap cost yn gweithio. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wrthi'n cwblhau'r trefniadau cyffredinol ynglŷn â phrisio cynlluniau. Disgwyliwn gynnal ymgynghori ymhellach ar fanylion prisio'r CPA unwaith y penderfynir ar y canllaw cyffredinol, a rhoi rheoliadau priodol gerbron y Senedd yn 2014.

## Rhan 11 Trosglwyddiadau

Mae'r rhan hwn yn sefydlu'r trefniadau sy'n llywodraeth pryd fydd gan aelod hawl i daliad gwerth trosglwyddo. (Gweler hefyd Atodlen 2 am ragor o wybodaeth ar drosglwyddiadau.)

## Rhan 12 Amrywiol ac Atodol

Mae'r rhan hon yn egluro'r prosesau atodol, megis talu prisiau trosglwyddo. Mae hefyd yn egluro'r angen i gyflogwr aelod o'r cynllun gadw gwybodaeth benodol a sicrhau ei bod ar gael.

## Atodlen 1 Cyflogaeth cymwys

Mae Atodlen 1 yn sefydlu’r gwaith cymwys sy’n galluogi i unigolyn ddod yn aelod gweithredol o’r Cynllun Pensiwn Athrawon. Mae Rhan 1 yn darparu diffiniadau o “ysgolion derbyniol” a “darparwyr swyddogaethau derbyniol”.

Ar wahân i ymddiriedolaethau academïau lluosog sy’n cael eu cynnwys yn Rhan 2, mae’r gwaith a restrir yn yr atodlen hon yn unol â rheoliadau’r cynllun presennol.

Gwneir newidiadau i’r adran hon i sicrhau ei bod yn ystyried hyd a lled y trefniadau bargen deg newydd a chanlyniadau unrhyw newidiadau y bydd yr Adran Waith a Phensiynau yn eu gwneud i reoliadau cofrestru awtomatig yn dilyn ymgynghoriad diweddar. Nodwch y bydd y newidiadau hyn yn ymestyn, yn hytrach na chyfyngu, mynediad at y cynllun. Ymhellach, yn fuan iawn bydd y trefniadau bargen deg yn debygol o fod yn destun ymgynghoriad pellach wedi ei anelu at ddiwygio’r rheoliadau presennol cyn gynted â phosibl, fel y gall aelodau gael budd o’r trefniadau estynedig mor fuan â phosibl.

## Atodlen 2 Pensiwn a drosglwyddwyd

DALFAN

Mae’r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd clwb trosglwyddo’r gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i weithredu, fel y nodwyd yn y CTA ar gyfer y CPA. Mae trefniadau’r clwb yn sicrhau nad yw’r ymdriniaeth o gynilion pensiwn yn rhwystr i unigolion sy’n symud ar draws y gwasanaeth cyhoeddus. Mae trafodaethau ar waith gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a chynlluniau eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus ar fanylion sut y gall y clwb weithio orau yn sgìl y cynlluniau diwygiedig. Disgwylir rhagor o fanylion cyn hir a bydd darpariaethau priodol, yn fwyaf tebygol drwy ddiwygio rheoliadau, yn cael eu hychwanegu unwaith y bydd y manylion hyn yn wybyddus.

Ychwanegir darpariaethau yn ymwneud â throsglwyddiadau i gynlluniau pensiwn (preifat) eraill ar yr un pryd. Bydd y trefniadau ar gyfer y rhain yn unol â threfniadau presennol er y bydd y dull o gyfrifo’n newid i gymryd i ystyriaeth o’r trefniadau cyfartaledd gyrfa.

## Atodlen 3 Hyblygrwydd y cynllun

Mae Atodlen 3 yn rhoi opsiynau i aelod o’r cynllun neu gyflogwr yr aelod brynu pensiwn ychwanegol neu i’r aelod o’r cynllun ddewis cyfradd cronni cynt.

Mae Rhan 1 yn gosod y diffiniadau a ddefnyddir drwy'r atodlen hon gan gynnwys, y cyfanswm uchaf posibl o bensiwn ychwanegol y gall aelod o'r cynllun ddewis ei brynu, y dull o fynegeio'r pensiwn ychwanegol, a'r cyfraddau cronni sydd ar gael.

Mae Rhan 2 yn nodi, os yw aelod o'r cynllun yn dymuno prynu pensiwn ychwanegol, rhaid datgan hynny'n ysgrifenedig i reolwr y cynllun. Rhaid i'r cais hwn gynnwys gwybodaeth benodol fel y nodir yn rheoliad 208. Mae'r rhan hon hefyd yn gosod yr amodau sydd yn caniatáu i bensiwn ychwanegol gael ei dalu i'r aelod o'r cynllun neu, os yw'n briodol, cyfraniadau a all gael eu had-dalu.

Mae Rhan 3 yn sefydlu cronni cynt yn y cynllun diwygiedig, h.y. yr hyblygrwydd lle y bydd aelodau yn medru cronni buddion pensiwn ychwanegol bob blwyddyn drwy dalu cyfraniadau uwch ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhan hon yn egluro sut i ymgeisio am gronni cynt a'r amodau ble bydd yr hyblygrwydd hwn yn weithredol.

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer aelod gydag oed pensiwn arferol (OPA) o dros 65 i brynu hyd at dair blynedd o newid actiwaraidd drwy dalu cyfraniadau ychwanegol (gall aelodau gydag OPA o 66 brynu un flwyddyn, aelodau gydag OPA o 67 brynu dwy flynedd, ac ati). Rhaid cyflwyno cais o'r fath i reolwr y cynllun o fewn 6 mis o ymuno â'r cynllun diwygiedig, ac mae'r rhan hon yn gosod yr amodau ar gyfer gweithredu'r newid hwnnw.

## Atodlen 4 Cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwyr

DALFAN

Bydd yr atodlen hon yn cynnwys gwybodaeth ar gyfradd y cyfraniadau sy'n daladwy gan aelodau'r cynllun a chyflogwyr. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r trefniadau ar gyfer prisio'r cynllun (rhan 10). Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn y broses o roi terfyn ar y trefniadau cyffredinol ar gyfer prisio cynlluniau. Disgwyliwn ymgynghori ymhellach ar fanylion prisiadau'r CPA a chyfraddau cyfraniadau unwaith y penderfynir ar y canllaw cyffredinol. Ein bwriad yw cyflwyno rheoliadau priodol gerbron y Senedd yn 2014.

## Atodlen 5 Darpariaethau trosiannol

Mae Atodlen 5 yn egluro sut y gall aelodau o'r cynllun symud o'r cynllun presennol i'r cynllun diwygiedig ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015.

Mae Rhan 1 yn darparu diffiniadau a ddefnyddir drwy'r atodlen hon. Mae'n diffinio "aelod a ddiogelir yn llawn", yn cadarnhau'r amodau ar gyfer diogelwch o'r fath a'r amgylchiadau lle byddai'r diogelwch hwnnw'n cael ei golli. Ymhellach, mae'n diffinio "aelod â diogelwch tapr" ac yn egluro'r amgylchiadau lle byddai'r aelod yn colli diogelwch.

Mae Rhannau 2 a 4 yn egluro'r trefniadau ar gyfer aelodau sydd wedi eu diogelu'n llawn a'r rhai tapr, gan gynnwys pa bryd a sut i ymuno â'r cynllun hwn.

Mae Rhan 5 yn gosod y trefniadau sy'n weithredol ar gyfer talu buddion i aelodau trosiannol (h.y. y rhai sydd â gwasanaeth cyflog terfynol a chynllun diwygiedig) ar gyfer y naill fath o achos. Er enghraifft mae paragraff 23 yn egluro y bydd unrhyw fuddion analluogrwydd llwyr yn daladwy drwy'r cynllun diwygiedig.

Mae Rhan 6 yn gosod yr amrywiol drefniadau sy'n weithredol mewn perthynas â'r cynllun presennol i aelodau trosiannol, e.e. y bydd gwasanaeth yn y cynlluniau cyflog terfynol a diwygiedig yn gymwys.

## Cwestiwn yr Ymgynghoriad

Byddai'r Adran yn croesawu barn rhanddeiliaid ar y rheoliadau drafft, yn benodol, pa mor effeithiol ydyn nhw mewn perthynas â'r cynigion i weithredu'r Cynllun Pensiwn Athrawon, gan gynnwys y diwygiadau yn dilyn ymateb yr Adran i'r ymgynghoriad blaenorol.

## Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 13 Medi 2013 ac yn rhedeg tan 11 Tachwedd 2013. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau'r ffurflen ymateb a'i e-bostio i reformedteacherspension.CONSULTATION@education.gsi.gov.uk neu drwy yrru eich ymateb drwy'r post i:

Teachers' Pensions Reform Consultation, Department for Education, Ground Floor Area B, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington, DL3 9BG.

## Copïau Ychwanegol

Mae copïau ychwanegol ar gael yn electronig a gellir eu lawrlwytho o wefan e-ymgynghori'r Adran Addysg yn:

www.education.gov.uk/consultations

## Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ac ymateb yr Adran yn cael eu cyhoeddi ar wefan e-ymgynghori'r Adran yn gynnar yn 2014.